**Cofnodion Cyfarfod CCG Mehefin 24.6.21**

**Am 7.30yh Ar-lein**

**19:220: Presennol:** Gareth Jones, (Cadeirydd), William Owen, Dafydd Evans, Huw Williams, Aled Griffiths, Paul Hughes, Deryck Lewis, Elwyn Vaughan, Iwan Jones, Sandra Evans (Clerc)

**19:221: Ymddiheuriadau:** Gwen Lloyd, Gwenfair Davies, Gareth Owen

**19:222: Datganiadau o ddiddordeb:** Dim

**19:223: Cyflwyno a derbyn Cofnodion Mehefin** Nodwyd y dylid cywiro enw Deryck Lewis Cynigiwyd fod y cofnodion yn gywir gan Huw Williams. Fe'i heiliwyd gan Aled Griffiths.

**19:224: Materion yn codi o'r Cofnodion**

- **Bancio ar-lein** Nodwyd y bydd y Cyngor yn defnyddio sieciau eto am y tro.
- **Diweddariad am y Cyfrifon Blynyddol** Derbyniwyd sylwadau'r awdit mewnol gan y Cyngor a nodwyd y bydd unrhyw welliannau'n cael eu gweithredu'n syth.
- Nodwyd y dylid cysylltu â Whittingham Riddell o ran pryderon ynghylch y gwasanaeth o ran yr awdit e.e. prydlondeb o ran dychwelyd y cyfrifon erbyn diwedd Mehefin, dyblu Gwaith drwy ofyn am ddogfennau ar ôl eu cael a diffyg eglurhad o ran pwyntiau ariannol. (Nodwyd nad oedd unrhyw gwyn o ran gwasanaeth cyflogres a ddarperir hefyd gan Whittingham Riddell.) Bydd y Cyngor yn cysylltu â Whittingham Riddell i drafod y pryderon cyn gwneud penderfyniad terfynol am wasanaeth cyfrifwyr ar gyfer y dyfodol. Cynigiwyd hwn gan Dafydd Evans ac fe'i heiliwyd gan Iwan Jones.
- **Manhole ger Brynheulog, Cwmlline.** Yn dilyn ymyrraeth gan Elwyn Vaughan mae'r mater hwn wedi'i ddatrys.

**19:225: Cynllunio**

**19:225:1:** Cyfeirnod: 21/1076/ELE Cynnig: cais dan Adran 37 Deddf Trydan 1989: Ceblau Uwchben (Eithriad)(Lloegr a Chymru) Rholiad 2009 mewn perthynas ag adnewyddu cebl uwchben i gyfeiriad gogledd – orllewin cyfredol Maes Carafanau Bryn Uchel Isaf, Cwmlline, Machynlleth, Powys SY20 9PE- Derbyniwyd bod hwn yn waith angenrheidiol.

**19:225:2:** Cyfeirnod: 21/0880/FUL: Cynnig 'cloudhouses' (hyd at 4) ar gyfer llety gwyliau hunan arlwyo, adeilad derbynfa gwaith cysylltiedig. Cyfeiriad y safle: Pen Moel Eiddew Hill i'r dwyrain i Fferm Brynmeurig Farm, Cemmaes, Machynlleth Powys. Er nad oedd gwrthwynebiad i'r datblygiad mynegwyd siom and oedd enw Cymraeg ar y fenter. Cynigiwyd y dylid cysylltu i fynegi'r pryderon hyn gan Aled Griffiths fe'i heiliwyd gan Dafydd Evans.

**19:226: Pennu Cynghorwyr newydd - Hysbysiad swyddi gwag**
Mae dwy sedd wag wedi codi yn wardiau Darowen a Chemaes sef seddi blaenorol Y Cynghorydd Geraint Wigley a'r Cynghorydd Siôn Ifans. Rhoddir hysbysiad ar wefan y Cyngor yn unol â threfn Cyngor Sir Powys. Cynigiwyd bod hyn yn gywir gan Aled Griffiths ac fe'i heiliwyd gan Paul Hughes.

**19:227: Materion ariannol ac eitemau i'w talu**
**19:227:1: Diweddariad Ariannol**

| Dyddiad | Enw'r Cyfrif | Rhif y Cyfrif | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 11.6.21 | Current y Cyngor | 80405019 | 21,765.15 |
| 11.6.21 | Cynilion y Cyngor | 60839707 | 15,103.37 |
| 11.6.21 | Cyfrif Mynwent Llanwrin | 40500941 | 1,795.72 |

**19:227:2: Cymdeithas Alzheimers** £200.00 (taliad hwyr- CCG17.12.20 (19:175): Pennu elusennau
**19:227:3: Cyflog y clerc** – (£464.00 taliad hwyr ar gyfer 2020 – nodir bod hwn yn wahanol i'r swm a nodir ar yr agenda yn dilyn Whittingham Riddell yn adolygu'r wybodaeth gan £512.00 yn daliad hwyr ar gyfer Ionawr a Chwefror 2020)
**19:227:4:** Yn dilyn sgwrs gyda **Gloversure** nodwyd y dylid diystyrru anfoneb -19540 - £6.00 ar gyfer TAW oedd yn weddill gan y bydd yn cael ei gynnwys mewn anfoneb arall.
**19:227:5: Capel Same**- Cais am gyfraniad at gostau cynnal y fynwent. Rhoddwyd
**19:227:6: Glyn Rees a'i fab** - Derbyniwyd £100.00 – mynwent Darowen

**19:227:7: Aelodaeth SARPA 2021-2022** £10.00 ar gyfer William Owen, Cynrychiolydd SARPA CCG
**19:228: Adroddiadau'r Cynghorwyr**
**19:228:1: Adroddiad gan y Cynghorydd Sir, Elwyn Vaughan:** Nodwyd bod y manhole ger Brynhyfryd Cwmlline wedi cael sylw. Cynhelir cyfarfod ym Maes y Llan Cemaes gyda'r Gymdeithas Tai a phreswylwyr maes y Llan i drafod parcio..

**19:218:2: Adroddiad Llywodraethwr ar Ysgol Glantwymyn- Aled Griffiths** Mynychwyd cyflwyniadau creadigol gan dair ysgol y Ffederasiwn yn ddiweddar. Da yw gweld y plant yn cael budd o fod yn ôl yn yr ysgol ers y Pasg. Bydd dosbarth ychwanegol yn yr ysgol ar ôl mis Medi.

**19:218:3: SARPA William Owen Cynhelir cyfarfod SARPA Dydd Sadwrn.**

**19:218:4: Fforwm y Cleifion Gwenfair Davies a Gareth Wyn Jones**

- **Datblygiad Ysbyty Bro Ddyfi** Mynychodd Gwenfair gyfarfod yn ddiweddar. Prif bwrpas y cyfarfod oedd casglu gwybodaeth ynglŷn â sefydliadau yn yr ardal a fyddai â diddordeb i weithio gyda Bwrdd Iechyd Addysgol Powys i gynllunio'r ardaloedd garddio a thyfiant tu allan.
- **Ymgynghoriad Gwasanaethau Fferyllfa** -Nodwyd y dylid cyflwyno sylwadau ac ar-lein, gan ystyried yn arbennig sicrhau gwasanaeth presgripsiwn.

**19:219: Gohebiaeth:**

**19:219:1: Llythyr Siôn Ifans** Cafwyd llythyr gan Siôn Ifans yn nodi ei fod yn sefyll i lawr fel cynghorwr gan nad oedd erbyn hyn yn byw yn yr ardal. Dymunodd bob dymuniad da i'r Cyngor.

Diolchwyd i Siôn Ifans ar ran y Cyngor gan Gareth Wyn Jones am ei wasanaeth i'r Cyngor yn ystod ei gyfnod fel cadeirydd ac is-gadeirydd. Nododd Dafydd Evans bod y cyfnod hwnnw ar adegau wedi bod yn heriol dros ben a nodwyd cymaint o gefn oedd Siôn iddo yn bersonol yn ystod y cyfnod y buodd yntau yn gadeirydd. Diolchwyd iddo hefyd am ei holl waith gweinyddol yn ystod y cyfnod lle rhwng dau glerc. Mynegwyd diolch o waelod calon gan Aled Griffiths gan ddymuno'n dda iddo ar ôl iddo fudo i ardal arall.

**19:219:2: Ymgynghoriad Gwasanaethau Fferyllfa -**nodwyd y dylid cyflwyno sylwadau ar-lein, gan ystyried yn arbennig y gwasanaeth presgripsiwn.

**19:219:3: Ysgol Bro Hyddgen -**Cafwyd gwahoddiad i anfon sylwadau ar yr ysgol yn dod yn dod yn Ysgol Iaith Gymraeg.

**19:219:4: Cynllun darparu gwasanaethau bandeang Broadway Partners ar gyfer ardal Machynlleth a'r cyffiniau.** Cefnogir y ceisiadau i gefnogi cymunedau lleol mewn egwyddor gan y Cyngor. Anogwyd y cymunedau i gydweithio er mwyn cryfhau eu hachos. Cynigwyd hwn gan Aled Griffiths ac fe'i heiliwyd gan Iwan Jones.

**19.220: Unrhyw fater arall**
**19:220:1: Mynwent Cemaes -**Mae Aled Griffiths erbyn hyn yn aelod o grŵp bioamrywiaeth sy'n ymddiddori mewn mynwentydd. Codwyd y mater yn wreiddiol mewn perthynas â thorri gwair mynwent Cemaes.
Pwysleisiwyd mor bwysig yw i grwpiau ymgynghori â warden yr eglwys a chydweithio er parch i bobl â theulu a gladdwyd yno.
**19:2:220: Mynwent Darowen** Diolchwyd i Peter Jones am ei waith taclus wrth dorri'r gwair.
**19:220:3: Ciosg Darowen** – Nid yw'r gwaith trwsio wedi ei gyflawni gan BT o hyd. Cysylltir eto.
**19:220:4: Ffens mynwent Darowen** Bydd Gareth Wyn Jones y cysylltu â Huw Tudur.
**19:220:5: Parcio yng Nghemaes -** Mae cyfarfod wedi'i drefnu rhwng Elwyn Vaughan, preswylwyr lleol a'r Adran Tai.
**19:220:6: Gwasanaeth ambiwlans -** Mynegwyd pryder mawr am y posibilrwydd y bydd darpariaeth 24 awr gorsaf ambiwlans Machynlleth yn diflannu, gan olygu mai yn y Drenewydd y byddai'r ambiwlans 24 awr agosaf. Cysylltir â'r cyrff priodol gan gynnwys Bwrdd Addysgu Iechyd Powys a phennaeth y Gwasanaeth Ambiwlans i fynegi'r pryderon hyn a cheisio sicrwydd y bydd y gwasanaeth 24 awr yn parhau ym Machynlleth. Bydd y mater hefyd yn cael ei chodi gyda'r Fforwm Cleifion gan y Cynghorwyr perthnasol,
**19:20:7:: Cloddiau rhwng Ffriddgate a Chanolfan y Dechnoleg Amgen.** Mae angen eu torri'n ddifrifol. Cysylltir â Chyngor Sir Powys.

Caewyd y cyfarfod am 21.25yh.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf am 7.30yh ar y 29ain o Orffennaf**

-----------------------------------------------------------------------

**Cyfarfod Ymddiriedolaeth Melinau Gwynt Cemaes**

**Nodwyd bod £2000.00 wedi cael ei dderbyn gan edf.**

**Crynodeb ariannol.**

| Dyddiad | Enw'r Cyfrif | Rhif y Cyfrif | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 11.6.21 | Gwynt current | 40052604 | 2095.01 |
| 11.6.21 | Gwynt Cynilion | 80405035 | 6091.13 |

- **Adroddiad edf** Yn dilyn cais gan edf, bydd y clerc yn paratoi adroddiad bach i edf i ddangos ystod eang oedran a chefndir yr unigolion a chymdeithasau y mae Ymddiriedolaeth Melinau Gwynt Cemaes wedi eu cefnogi ar gyfer edf.
- **Neuadd Cemaes** Penderfynwyd rhoi £300.00 i gyfrannu at wyneb caled ar gyfer lle parcio o flaen Neuadd Cemaes ar gyfer defnydd gan y fan bost a dibenion eraill y gymdeithas. Cynigwyd hyn gan Iwan Jones ac fe'i heliwyd gan William Owen.
- **Enw Neuadd Cemaes** Nodwyd mai 'Ysgoldy'r Eglwys' oedd enw gwreiddiol yr adeilad yn hytrach na'r 'Jubilee Hall'. Nodwyd hefyd mai'r eglwys piau'r adeilad o hyd. Nodwyd gan y Cyngor nad oedd enw cyfredol y neuadd sef 'Jubilee Hall' yn adlewyrchu hanes a diwylliant lleol. Cysylltir â'r Pwyllgor.